

Ein Treftadaeth  
Our Heritage

# Canllaw Busnes Business Toolkit



Castell Dolbadarn Castle © Croeso Cymru / Visit Wales




## Ffocws

Menter â reolir gan Lywodraeth Cymru yw'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth i ddatblygu Twristiaeth Treftadaeth ar hyd a lled Cymru. Ariennir y prosiect gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd a bydd yn helpu mwyhau gwerth economaidd treftadaeth trwy gynyddu nifer, hyd a gwerth yr ymweliadau â Chymru.

Themau Cadw ar gyfer dehongli prosiect Ein Treftadaeth yw:

- Gwreiddiau a Chynhanes
- Tywysogion Gwynedd
- Mannau Sanctaidd
- Rhufeiniaid
- Cestyll Edward I
- Diwydiant

Bydd y prosiect yn defnyddio'r geiriau **Dilynwch y stori** er mwyn hyrwyddo'r syniad fod yr henebion yn perthyn i stori ehangach genedlaethol a rhanbarthol ac er mwyn cyfeirio ymwelwyr at safleoedd eraill perthnasol.



## The Focus

The Heritage Tourism Project is a Welsh Government managed initiative to develop Heritage Tourism across Wales. The project is largely funded by Welsh Government and the European Regional Development Fund, and will help maximise the economic value of heritage by increasing the number, length and value of visits to Wales.

The Cadw themes under which the interpretation projects are being organised are as follows:

- Origins & Prehistory
- Princes of Gwynedd
- Sacred Places
- Romans
- Castles of Edward I
- Industrial Nation

The project makes use of the phrase **Follow the story** which helps the visitor to understand that monuments do not exist in isolation but are part of a wider national and regional story and encourages the visitor to visit other related sites.



Castell Deganwy Castle © Kiran Ridley, Partneriaeth Prosiect Tywysogion Gwynedd / Princes of Gwynedd Project Partnership



### **Dilynwch y stori: Tomen Castell, Dolwyddelan**

Dywedir mai yma oedd man geni Llywelyn ab Iorwerth (Llywelyn Fawr) yn yr hen domen ar lawr Dyffryn Lledr.

### **Follow the story: Tomen Castell, Dolwyddelan**

The original motte castle at Tomen Castell, Dolwyddelan on the floor of the Lledr Valley has been suggested as the birthplace of Llywelyn ab Iorwerth (Llywelyn the Great).

## Gwreiddiau a Chynhanes

Mae gorffennol cynhanesyddol syfrdanol yn disgwyl y rhai sy'n awyddus i ddarganfod yr henebion sy'n britho llawer o gymeriad cefn gwlad gogledd Cymru. Mae'r dystiolaeth yn y dirwedd yn adrodd stori gyfoethog o gymunedau cynnar a'u seremonïau ysbrydoledig, eu bywyd amaethyddol a thechnolegol a'u cysylltiadau ehangach gyda chynhanes Ewropeaidd.

Mae archeolegwyr wedi canfod olion bywyd dros miloedd o flynyddoedd – mae claddedigaethau dynol a thamaid o asgwrn gŕen ceffyl wedi ei arddurno wedi eu darganfod yn Ogorch Kendrick ar Pen y Gogarth, Llandudno, sy'n dyddiol'n ôl i 11,000 - 10,000 CC (yn ystod y cyfnod Uwch Balaelithig). Oddeutu 5500 o flynyddoedd yn ôl roedd beddrodau mawr o gerrig, tebyg i'r rhai yn Dyffryn Ardudwy yn cael eu llunio. Yn aml mewn lleoliadau arfordirol fe ddaethant yn ganolbwynt bywyd cymunedol yn ystod y cyfnod.

Roedd copaon brynau a bylchau dramatig y mynyddoedd yn leoliadau ar gyfer y cylchoedd cerrig a chladdedigaethau oddeutu 4000 o flynyddoedd yn ôl, eto yn dangos pwysigrwydd y dirwedd i'r bobl hyn. Llai na 3000 o flynyddoedd yn ôl dechreuwyd adeiladu mwy a mwy o fryngaerau, rhai a ddaeth yn ddiweddarach yn lleoliadau caeru a chestyll canoloesol.

Gellir archwilio myrdd o nodweddion archeolegol o gylchoedd meini hir a beddrodau, i fryngaerau a chwareli, ar droed. Gwisgwch eich esgidiau cerdded, paciwch frechdan neu ddwy a dewch ar daith yn ôl i'r byd hynafol.

## Origins & Prehistory

An incredible prehistoric past awaits those who are keen to discover the monuments that underpin much of the character of the north Wales countryside. The evidence in the landscape tells us a rich story of early communities and their spiritual, ceremonial, agricultural and technological lives and their wider connections with prehistoric Europe.

Archaeologists have unearthed signs of life from across the millennia – human burials and a decorated fragment of a horse jawbone have been found at Kendrick's Cave on the Great Orme in Llandudno, which has been dated to 11,000 - 10,000 BC (during the Upper Paleolithic period). Around 5500 years ago, large stone tombs, like those at Dyffryn Ardudwy, were being constructed. Often in coastal locations, they became a focus for community life.

Dramatic hilltops and mountain passes were the settings for the stone circles and burials dating to about 4000 years ago, another indication of the importance of the landscape to these communities. Less than 3000 years ago, people increasingly built hillforts, some of which later became the sites of early medieval forts and castles.

A myriad of fascinating archaeological features from stone circles and burial chambers, to hillforts, roundhouse settlements and ancient fields, can be explored on foot. Pull on your hiking boots, pack some sandwiches and take a journey into the ancient past.



Dinas Emrys © Sarah McCarthy





## Rhufeiniaid

Cyrhaeddodd y Rhufeiniaid yn ne Prydain yn 43 OC ond cymerodd sawl degawd o ymladd yn erbyn y llwythau lleol cyn iddynt oresgyn y gwrthsafiad lleol cadarn.

Roedd y newydd-ddyfodiaid hefyd yn graff – gan sefydlu breniniaethau cleient, lle roedd rhai llwythau yn rheoli tir i'r Rhufeiniaid. Llwyddodd milwyr y Llywodraethwr Agricola i gymryd rheolaeth o Ynys Môn a Gogledd Cymru erbyn 77 OC ac fe sefydlasant ganolfannau i gadarnhau grym y Rhufeiniaid yng Nghymru. Roedd gan y caerau hyn a leolwyd mewn lleoliadau strategol, rhai ar dir uchel a rhai wrth afonydd neu ar yr arfordir, rôl hanfodol i'w chwarae mewn rhwydweithiau masnach a chyfathrebu ac roedd pob canolfan Rufeinig wedi'i chysylltu â lonydd a adeiladwyd o'r newydd.

Adeiladwyd y ceiri hyn gan ddilyn strwythur unffurf i sicrhau bod y grym milwrol Rhufeinig yn rhedeg yn ddiraffferth. Fe wnaeth y Rhufeiniaid ymgymryd â gwaith diwydiannol i wasanaethu eu anghenion adeiladu hefyd – daethpwyd o hyd i dystiolaeth o'u odynau teils ac roeddynt yn mwynloddio copr ac yn defnyddio llechen. Roedd llai o filwyr wedi eu lleoli yng Nghymru erbyn 120 OC oherwydd bod eu hangen i amddiffyn y terfyn gyda gogledd Lloegr.

Cyda'r Ymerodraeth Rufeinig yn cilio ar ddiwedd y 4edd ganrif, roedd y byddinoedd yn tynnu'n ôl o Gymru a'r gogledd. Erbyn 410 OC daeth rheolaeth Rufeinig i ben ym Mhrydain, ond mae eu holion dal i'w gweld yn ein trefi a chefn gwlad. Darganfyddwch fwy drwy ymweld ag olion y caerau hyn ar droed yn Segontium (Caernarfon), Canovium (Caerhun) a Thomen y Mur (Trawsfynydd).

## Romans

The formidable Roman army first arrived in the south of Britain in AD 43 but it took them several decades of fighting the local tribes to overcome determined local resistance.

The newcomers were shrewd operators too – they set up certain areas as client kingdoms, meaning that some tribes controlled territory for the Romans. Governor Agricola's troops managed to take control of the Isle of Anglesey and north Wales by AD 77 and they set up bases to secure their power in the region. These auxiliary (or secondary) forts, in strategic locations, some by river or the coast, played a vital role in trade and communications networks, and each Roman base was connected by newly built roads.

The forts were constructed according to a uniform structure to ensure the smooth running of the mighty Roman military machine. The Romans even engaged in industry to service their building needs – evidence of their tile kilns have been discovered and they also mined copper and used slate. Fewer soldiers were stationed in Wales by AD 120 because they were needed to defend the border in the north of England.

In the late 4th century, with the Roman Empire on the wane, troops were withdrawn from Wales and the north. By AD 410 Roman rule in Britain had ended but their legacy is still clearly visible in our towns and countryside. Find out more by tracing the remains of forts by foot at Segontium (Caernarfon), Canovium (Caerhun) and Tomen y Mur (Trawsfynydd).



Segontium, Caernarfon © Ein Treftadaeth / Our Heritage



## Tywysogion Gwynedd

Roedd tywysogion Gwynedd yn linach frenhinol hynafol a nhw oedd llinach fwyaf grymus Cymru'r Oesoedd Canol. Estynnodd eu teyrnas o dir ffrwythlon Ynys Môn i fynyddoedd mawreddog Eryri ac ar un adeg, roedd yn cwmpasu Cymru bron iawn i gyd.

Brwydrodd y tywysogion yn erbyn eu gilydd ac yn erbyn coron Lloegr am dros 800 o flynyddoedd er mwyn sicrhau eu grym. Ond nid adeg o ryfela a chythrwbl yn unig oedd hwn. Ffurfiodd y tywysogion gysylltiadau diwylliannol a chrefyddol cryf gyda chyfandir Ewrop, a chafodd pensaernïaeth, cerddoriaeth a barddoniaeth hyfryd eu noddi ganddynt.

Gallwch weld eu gwaddol heddiw ar hyd a lled gogledd orllewin Cymru. Ewch i ddilyn ôl troed y tywysogion, a darganfyddwch gestyll cudd, preswylfeydd brenhinol ac eglwysi heddychlon mewn tirweddau syfrdanol.

## Princes of Gwynedd

The princes of Gwynedd traced their royal line back to ancient times and became the most powerful dynasty in Medieval Wales. Their kingdom stretched from the fertile lands of Anglesey to the soaring peaks of Snowdonia and at one point expanded to cover much of Wales.

For more than 800 years, the princes fought with one another and the English crown to secure their positions of power. But this was not just a time of war and turmoil. The princes forged strong cultural and religious links with continental Europe and were patrons of beautiful architecture, music and poetry.

Their legacy can be found today throughout north west Wales. Why not follow in the footsteps of the princes, and discover hidden castles, royal residences and tranquil churches set in breathtaking landscapes?



Arch Garreg Llywelyn Fawr, Eglwys Sant Grwst, Llanrwst  
Sarcophagus of Llewelyn Fawr, St Grwst's, Llanrwst  
© Sarah McCarthy



## Cestyll Edward I

Mae cymryd cipolwg sydyn ar y cestyll canoloesol a'r waliau tref a adeiladwyd gan Frenin Edward I yng Ngwynedd a Chonwy yn ddigon i argyhoeddi unrhyw un eu bod yn llawn haeddu eu statws Treftadaeth y Byd UNESCO. Mae'r amddiffynfeydd trawiadol hyn yn dystiolaeth o uchelgais Edward I i ymestyn ei deyrnas a chyfnerthu ei rym yng Nghymru wedi iddo drechu Tywysogion Gwynedd ar ddiwedd y 13eg ganrif.

Bu James St George, peiriannwr milwrol a phensaer anhygoel o Savoy, Ffrainc, yn gweithio i Edward ar y strwythurau hyn. Dyluniwyd y cestyll i gadw pobl allan ohonynt, ac yn achos trefi caerog Caernarfon a Chonwy, i alluogi swyddogion Lloegr redeg pethau o du mewn i'r gaer. Fe ymosodwyd ar y cestyll hyn gan dywysogion Cymru, Madog ap Llywelyn ar ddiwedd yr 13eg ganrif ac Owain Glyndŵr yn fuan yn y 15fed ganrif, fel protest yn erbyn rheolaeth Lloegr.

Hyd yn oed os mai dim ond ymweld ag un o'r pedwar castell yng Nghaernarfon, Conwy, Harlech a Biwmares wnewch chi, bydd yn ddigon i wneud i chi synnu ar faint y cestyll grymus hyn a rhyfeddu at uchelgais Edward I.

## Castles of Edward I

One look at the medieval castles and town walls built by King Edward I of England in Gwynedd and Conwy would convince even a casual observer that they are worthy of their UNESCO World Heritage status. These incredible fortresses are evidence of Edward's determination to extend his kingdom and consolidate his power in Wales after defeating the independent Princes of Gwynedd in the late 13th century.

Edward engaged the services of a skilful military engineer and architect, James of St George from Savoy in France. The castles were designed to keep people out and, in the case of the walled towns of Caernarfon and Conwy, to allow English officials to run things from inside the compound. These castles were attacked by Welsh princes Madog ap Llywelyn in the late 13th century and Owain Glyndŵr in the early 15th century, in protest at English rule.

Whether you visit just one or all four of the castles at Caernarfon, Conwy, Harlech and Beaumaris, you can't help but marvel at the impressive scale of these mighty castles and wonder at Edward's towering ambition.



Castell Caernarfon Castle ©  
Cadw, Llywodraeth Cymru (Hawlfraint y Goron)  
Cadw, Welsh Government (Crown Copyright)





## Mannau Sanctaidd

Byddwch yn barod i ddod ar draws tirwedd drawiadol gogledd Cymru yn cynnwys mynyddoedd hudol, cymoedd heddychlon a morluniau godidog. Yn yr Oesoedd Canol, teithiai pobl ar bererindod o Dreffynnon i Ynys Enlli ym Mhenrhyn Llŷn, gan ymweld â ffynhonnau sanctaidd a chysegrfeydd wedi'u cysegru i seintiau Celtaidd mewn eglwysi ar hyd y daith.

Heddiw, mae Taith Pererin Gogledd Cymru yn rhoi cyfle i gerddwyr brwd ddilyn ôl-troed y pererinion canoloesol ac ymweld â safleoedd cysegredig ar hyd y daith 130 milltir. Mae'r dirwedd yn frith o chwedlau hefyd. Mae 11 chwedl y Mabinogi, sy'n sôn am hud, dewrder a brad, wedi'u lleoli mewn manau y gellir eu hadnabod heddiw.

Gallwch ganfod hanesion pobl ysbrydoledig, megis y prifardd Hedd Wyn a Mary Jones (y ferch fu gerdded 25 milltir i brynu Beibl Cymraeg), gan ymweld â safleoedd a dilyn llwybrau sy'n datgelu eu straeon. Mae trysorau diwylliannol mewn celf, llenyddiaeth a phensaerniaeth i'w darganfod mewn lleoliadau megis, Abaty Cymer, Portmeirion neu Cae'r Gors, Rhosgadfan man geni yr awdures Kate Roberts.

P'un a ydych yn chwilio am anogaeth ysbrydol wrth fyfyrion dawl mewn eglwys, neu fwynhau prydfwrthwch panoramig o ben mynydd, dyma'r lle i chi.

## Sacred Places

Get ready to encounter the breathtaking landscape of north Wales, encompassing majestic mountains, peaceful valleys and sublime seascapes. In Medieval times, people set off on pilgrimage from Holywell to the island of Bardsey on the Llŷn Peninsula, visiting holy wells and shrines dedicated to Celtic saints at churches along the way.

Today, the North Wales Pilgrim's Way offers keen walkers a chance to follow in the footsteps of the medieval pilgrims and visit sacred sites along a 130 mile route. Myths and legends abound in the landscape too. The 11 tales from the Mabinogion, featuring magic, heroism and betrayal, are set in locations that can still be traced today.

You can discover the histories of inspirational people, such as the poet Hedd Wyn and Mary Jones (the girl who walked 25 miles to buy a Welsh Bible), by visiting sites and following trails that reveal their stories. Cultural treasures in art, literature and architecture can be explored at captivating locations such as Cymer Abbey, Portmeirion or Cae'r Gors, the birthplace of author Kate Roberts in Rhosgadfan.

Whether you seek spiritual inspiration in a moment of quiet contemplation in a tranquil church, or panoramic beauty enjoyed from a mountaintop, you can find it here.



Abaty Cymer Abbey © Kiran Ridley, Partneriaeth Prosiect Tywysogion Gwynedd / Princes of Gwynedd Project Partnership



## Cenedl Ddiwydiannol

Trawsnewidiwyd y tirlun yn nhrefi a chefn gwlad gogledd Cymru ar ddiwedd y 18fed a'r 19eg ganrif yn sgil datblygiad diwydiannol anferth. Wrth i ddatblygiadau newydd mewn technoleg a pheirianeg weld golau dydd, gwelwyd newid mawr yn y dulliau o fwyngloddio adnoddau naturiol megis llechi a chopr. Roedd hyd yn oed mwyngloddio am aur o amgylch Dolgellau! Mae nifer o bentrefi a threfi yng ngogledd-orllewin Cymru yn bodoli oherwydd y chwareli llechi, ac mae treftadaeth y diwydiant anferthol hwn i'w gweld mewn gweithiau chwarel a bythynnod y gweithwyr sy'n dal i fodoli mewn llefydd fel Dyffryn Nantlle.

Yn ogystal, datblygodd dulliau trafndiaeth a gwelwyd rheilffyrdd cul yn igam-ogamu ar draws y tir fel dull o drosglwyddo llechi i borthladdoedd Caernarfon, Porthmadog, a Bangor. Allforiai'r porthladdoedd hyn ffrwyth llafur diwydiannol yr ardal ar draws y byd – hyd yn oed mor bell ag Awstralia. Yn fwy lleol, helpodd peirianwyr megis Thomas Telford a Robert Stephenson i leihau pellteroedd teithio drwy adeiladu eu pontydd arloesol dros Afon Menai.

Beth am ddarganfod yr amrywiaeth eang o berlau diwydiannol drwy wisgo eich het galed a mynd i chwilota yn yr ogofâu llechi tanddaearol yn Llechwedd, Blaenau Ffestiniog, neidio ar un o drenau y rheilffyrdd cul i deithio ar draws dyffrynnoedd y chwareli llechi neu ymweld a Amgueddfa Lechi Cymru yn Llanberis.

## Industrial Nation

Both town and countryside were radically transformed in the late 18th and 19th centuries by immense industrial activity. Technological innovation and advances in engineering meant that the extraction of resources such as slate, copper and lead underwent a major change. Even gold mining took place around the town of Dolgellau! Many villages and towns in north west Wales owe their existence to slate quarrying and the legacy of this enormous industry can be seen in the quarry workings and worker's cottages left behind in places such as Dyffryn Nantlle.

Transportation also developed with narrow-gauge railways, like those at Ffestiniog and Talyllyn, crossing the land to transport slate to harbours such as Caernarfon, Porthmadog and Bangor. These ports exported the fruits of industrial endeavour across the globe – even as far away as Australia. More locally, the engineers Thomas Telford and Robert Stephenson helped to shorten travel distances with their pioneering bridges across the Menai Strait.

Why not discover the wide variety of industrial gems for yourself? Don a hard hat to explore underground slate caverns at Llechwedd, Blaenau Ffestiniog, hop on one of the narrow-gauge trains across the slate quarrying valleys or visit the National Slate Museum in Llanberis.



Amgueddfa Lechi Cymru / National Slate Museum Llanberis ©  
Ein Treftadaeth / Our Heritage





## Y Ffeithiau

- Tybir bod y sector amgylchedd hanesyddol yn cefnogi dros 30,000 o swyddi FTE yng Nghymru
- Ar y cyfan, tybir bod y sector amgylchedd hanesyddol yn cyfrannu rhyw £840 miliwn i GYC cenedlaethol Cymru, sydd gyfwerth a 1.9% o GYC Cymru
- Mae'r sector amgylchedd hanesyddol hefyd yn cyfrannu rhyw £1.8 biliwn o ran allbwn
- 90% o ymwelwyr tramor a Chymru yn ymweld a safle diwylliannol
- Yn ystod 2010 gwariwyd £144 miliwn ar wyliau lle roedd diwylliant yn flaenllaw fel gweithgaredd a gwariwyd £590 miliwn ar wyliau lle roedd diwylliant yn chwarae rhan o'r gwyliau

*Gwerthfawrogi Amgylchedd Hanesyddol Cymru 2010*  
ECOTEC Research and Consulting Ltd

Castell Harlech / Harlech Castle © Cadw, Llywodraeth Cymru (Hawlfraint y Goron) / Cadw, Welsh Govt (Crown Copyright)



## Sut gall Ein Treftadaeth fod o gymorth i'ch busnes.

### Ymchwil

Rydym yn sylweddoli pwysigrwydd cynorthwyo ymwelwyr i wneud y gorau o'u hymweliadau. Felly bydd angen ateb cwestiynau tebyg i

“ *Lle gallaf weld siambr gladdu? Beth sydd yn bwysig am safle X? Oes bws yn mynd gerllaw? Oes modd beicio yno? A yw'r safle yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn? Beth arall sydd i'w weld yn yr ardal?* ”

defnyddiwch [www.treftadaetheryri.info](http://www.treftadaetheryri.info)

Yma cewch wybodaeth cefndir am safleoedd a hefyd wybodaeth pellach am fynediad i'r safleoedd hynny. Yn ogystal cewch linell amser, map rhyngweithiol a chysylltiadau defnyddiol fel y Canolfannau Gwybodaeth.

Mae modd ddefnyddio lluniau a fideos oddi ar y safle we [www.snowdonia-heritage.info](http://www.snowdonia-heritage.info) ar gyfer eich deunydd hyrwyddo, safle we neu daflenni a hynny am ddim drwy gysylltu â [eintreftadaeth@gwynedd.gov.uk](mailto:eintreftadaeth@gwynedd.gov.uk)

Cadwch olwg yn yr adran **Digwyddiadau** am weithgareddau a gynhelir yn yr ardal.

## How Our Heritage can give practical help to your business.

### Research

We all know helping visitors to make the most of their visit is the key to having a good time. So to answer questions such as...

“ *Where can I see burial chambers? What is important about X? Is it on a bus route? Can I cycle there? Is it suitable for wheelchairs? What else is there to see nearby?* ”

[www.snowdoniaheritage.info](http://www.snowdoniaheritage.info) is your one stop shop!

Here, as well as interpretation text and access information for individual historical and inspirational sites, you'll also find an interactive map, timeline and information on the Tourist Information Centres.

Many of the videos and photographs shown on the [www.snowdoniaheritage.info](http://www.snowdoniaheritage.info) website can be used on your own website and promotional material at no charge. Contact [ourheritage@gwynedd.gov.uk](mailto:ourheritage@gwynedd.gov.uk) for more information.

Consult the **Events** section to keep your guests up to date with what's going on in your area.

## Facts

- It is estimated that the historic environment sector supports over 30,000 full time equivalent (FTE) jobs in Wales
- The historic environment sector contributes approximately £840 million to Wales' national gross value added (GVA)
- The historic environment sector contributes some £1.8 billion in respect of output
- 90% of international visitors staying in Wales visited a cultural site
- In 2010, £144 million was spent on holidays where culture was the main activity for the holiday, and £590 million was spent on holidays where a cultural activity was undertaken as part of the holiday

*Valuing the Welsh Historic Environment 2010* ECOTEC Research & Consulting Ltd

Rheilffordd y Cambrian / Cambrian Railway © Arriva Cymru



## Llenyddiaeth

Mae llenyddiaeth ar gael i chi ei ddefnyddio gan Ein Treftadaeth. Cysylltwch â eintreftadaeth@gwynedd.gov.uk am fanylion pellach.

## Pencampwyr Ein Treftadaeth

Fel busnes lleol sydd wedi mynychu un o'r gweithdai Ein Treftadaeth rydych yn derbyn sticr '**Pencampwr Treftadaeth**'. Bydd modd ei arddangos yn ffenestr eich busnes.

## Pwysigrwydd Naws Am Le

Mae cynnwys elfennau o dreftadaeth lleol yn eich busnes yn gwneud synnwyr economaidd. Dyma ambell i syniad:

- Defnyddio llechi yn addurniadol
- Rhoi enw cymeriadau chwedlonol neu hanesyddol ar ystafelloedd
- Beth am roi enw chwedl neu leoliad hanesyddol ar bryd o fwyd?
- Rhoi enwau bachog ar deithiau cerdded
- Cynnwys tirluniau neu lluniau o henebion lleol ar y wal
- Rhoi sylw i'r ymdeimlad naws am le yng ngwaith marchanata y cwmni.



Thomas Charles, Y Bala © H. J. Price

## Literature

The Our Heritage team has literature available. Contact ourheritage@gwynedd.gov.uk to find out how to obtain copies.

## Our Heritage Ambassador Award

If a member of your business has attended an Our Heritage workshop, you will be permitted to use the **Our Heritage ambassador** logo on your website and be given a window sticker.

## The Power of Sense of Place

It makes economic sense to embed the local heritage in your business. Some ideas are:

- Use local slate as coasters or key fobs
- Label rooms after local legends or characters
- Name dishes after local historical sites
- Theme walking route suggestions after local historical events or people
- Incorporate pictures of local views or objects into decor
- Incorporate a flavour / taste of the local sense of place in PR / marketing activities.



## Adnoddau Eraill

### Pyrth

Bydd nifer o ganolfannau (pyrth) yn cynnwys byrddau gwybodaeth a fydd yn rhoi cyflwyniad i **Ein Treftadaeth** a themau Cadw a hefyd yn eich cyfeirio at safleoedd eraill cyfagos. Gweler y canolfannau yma ar y Map Rhyngweithiol

### Tywyswyr Proffesiynol

Os am ddefnyddio arbenigedd tywysydd proffesiynol i ddehongli y safleoedd yma cysylltwch â [www.walesbestguides.co.uk](http://www.walesbestguides.co.uk)

### Teithlenni a Chylchdeithiau Clywedol

Mae teithlenni y gallwch ei lawrlwytho ar y safle we ar gyfer cerddwyr neu rhai sydd yn beicio, defnyddio cludiant cyhoeddus neu yn moduro.

Pyrth	Thema
Tomen y Mur	Rhufeiniad
Dyffryn Ardudwy	Chynhanes
Dolgellau	Amrywiol
Clynnog	Mannau Sanctaidd
Ffynnon Cybi	Mannau Sanctaidd
Caernarfon	Amrywiol
Bangor	Mannau Sanctaidd
Penmaenmawr	Chynhanes
Llandudno	Amrywiol
Caerhun	Rhufeiniad
Betws y Coed	Tywysogion Gwynedd
Conwy	Tywysogion Gwynedd
Criccieth	Tywysogion Gwynedd

## Other Resources

### Hubs

The **Our Heritage** Project has provided exhibitions that give a brief insight into the themes that Cadw have identified. These information hubs are shown on the interactive map and will both provide information and act as a link to other sites within the cluster.

### Tour Guides

For qualified tour guides that can bring the history of these sites alive for individuals or groups check out: [www.walesbestguides.co.uk](http://www.walesbestguides.co.uk)

### Downloadable Itineraries and Audio Trails

On the website are links to exciting and interesting downloadable or printable itineraries for walkers, public transport users, cyclists or motorists which you will be able to link to on your website or print out for guests.

Hubs	Theme
Tomen y Mur	Romans
Dyffryn Ardudwy	Pre History
Dolgellau	Various
Clynnog	Sacred Places
St Cybi's Well	Sacred Places
Caernarfon	Various
Bangor	Sacred Places
Penmaenmawr	Pre History
Llandudno	Various
Caerhun	Romans
Betws y Coed	Princes of Gwynedd
Conwy	Princes of Gwynedd
Criccieth	Princes of Gwynedd



## Dilynwch y stori...


Adeiladwyd Castell Dolbadarn, gyda'r Wyddfa'n edrych yn ddramatig drosto yn y 1220au gan Llywelyn ab Iorwerth i amddiffyn perfeddwlad Eryri. Credir bod trawstiau pren y neuadd fawr wedi eu haildefnyddio i adeiladu Castell Caernarfon. Lleolir y castell ger Llanberis ac mae'n enwog fel y lle y cadwodd Llywelyn ap Gruffudd un o'i frodyr, Owain Goch ap Gruffudd, yn garcharor am 20 mlynedd.

## Follow the Story...

Dolbadarn Castle, dramatically overlooked by Snowdon, was built in the 1220s by Llywelyn ab Iorwerth to protect the heartland of Snowdonia. Wooden beams from the great hall are thought to have been re-used in the building of Caernarfon Castle. Located near Llanberis, it is famous as the place where Llywelyn ap Gruffudd kept one of his brothers, Owain Goch ap Gruffudd, prisoner for 20 years.



# Pencampwr



Ein Treftadaeth  
Our Heritage

## Champion

“ Mae hyrwyddo hanes a chwedlau hudolus Dinas Emrys, man geni y ddraig goch eiconig, wedi chwarae rhan bwysig o ran cynyddu nifer yr ymwelwyr i'r safle. Mae'r straeon yn dod yn fyw trwy gelf, sain a cherfluniau ac yn creu dimensiwn ychwanegol i'r ymweliad, a gobeithio y bydd yn annog pobl i ddod yn ôl a dilyn y stori drwy archwilio safleoedd eraill hefyd.

**Lowri Roberts** - Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Craflwyn

“ Promoting the fascinating history and legends of Dinas Emrys, the birthplace of the iconic red dragon, has played an important role in increasing visitor numbers at the site. The tales are brought to life through art, audio and sculptures, creating an extra dimension to the visit and we hope this will encourage people to come back and follow the story by exploring other sites too.

**Lowri Roberts** - National Trust, Craflwyn

## CAPEL GWYDIR, EGLWYS SANT GRWST, LLANRWST

Yma cawn ddarganfod cist bedd Llywelyn Fawr, Tywysog Gwynedd 1201-1240. Mynediad am ddim. Ar agor yn ddyddiol. Llwybr ger Sgwâr Ancaster.




## CASTELL CAERNARFON

Wedi ei adeiladu o 1283 ymlaen yn dilyn y rhyfeloedd yn erbyn Tywysogion Cymru, Castell Caernarfon, sydd yn Safle Treftadaeth y Byd dynodedig UNESCO, yw'r mwyaf trawiadol o gestyll Edward 1af. Amseroedd agor a phris mynediad ar safle we Cadw - [www.cadw.wales.gov.uk](http://www.cadw.wales.gov.uk)




## SEGONTIUM, CAERNARFON

Dyma'r prif gaer Rhufeinig yng ngogledd Cymru a adeiladwyd 77-78 oed Crist gan Agricola wrth iddo ymosod ar yr Ordoficiaid. Defnyddiwyd y gaer hyd at ddiwedd y 4edd ganrif. Amseroedd agor a phris mynediad ar safle we Cadw - [www.cadw.wales.gov.uk](http://www.cadw.wales.gov.uk)



## DINAS EMRYS, BEDDGELEERT

Olion tŵr canoloesol yn perthyn i Dywysogion Gwynedd. Cysylltir Dinas Emrys a chwedl Gwrtheyrn, Emrys a'r ymryson rhwng y Ddraig Goch a'r Ddraig Wen. Mynediad am ddim. Taith gerdded ar lwybr mynydd - 45 munud pob ffordd o Craflwyn. Angen esgidiau cerdded.



## TRE'R CEIRI, LLANAELHAEARN

Dyma'r bryngaer mwyaf trawiadol yng ngogledd Cymru, gyda dros 150 o gytiau crynion mewn cyflwyr ardderchog oddi fewn i furiau anferth y gaer. Taith gerdded 40 munud pob ffordd ar lwybr mynydd. Angen esgidiau cerdded.



## GWAITH COPR SYGUN, BEDDGELEERT

